



## Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

### Cyfarfod Uwchgyfeirio

Pencadlys yr Heddlu

28 Ionawr 2020

Yn bresennol	
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
<b>Lee Jones (LJ) – CADEIRYDD</b>	<b>Prif Weithredwr</b>
Laura Armitt (LA)	Cynghorydd Gweithredol a Swyddog Cymorth
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydarddoldeb
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Heddlu De Cymru	
Y Prif Uwch-arolygydd Phil Ashby (PA)	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
Mark Stevenson (MS)	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jeremy Vaughan (JV)	Dirprwy Brif Gwnstabl
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

Na ho ffw n	Eitem	Cynnwys	Cam Gweithredu	Perchen nog
----------------------	-------	---------	----------------	----------------

1.	Croeso a Chyflwyniadau	Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau.		
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf	<p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod At Wraidd y Mater blaenorol ar lesiant a diwylliant yn gofnod gwir, ac adolygwyd y camau gweithredu (gweler y tabl camau gweithredu isod am ddiweddariadau). Yn ystod trafodaeth am y camau gweithredu heb eu cymryd, cwestiynodd JV y broses o benderfynu ar bynciau craffu 2020/21, gan awgrymu y dylid canolbwyntio ar y materion sydd o'r budd mwyaf i'r cyhoedd. Roedd JV yn ansicr a fyddai parhau i graffu ar faterion mewnol o'r budd mwyaf i'r cyhoedd.</p> <p>Dywedodd LJ y byddai'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael eu pennu yn ystod y misoedd nesaf ac y byddent yn parhau i gael eu llywio gan ymrwymadau Cynllun Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Chynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl. Cadarnhaodd LJ nad y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd fyddai'r unig gyfarfod a fyddai'n cynnal swyddogaethau craffu. Er enghraifft, byddai gan y Bwrdd Adnoddau a'r Bwrdd Partneriaethau rôl i'w chwarae yn hyn o beth hefyd, ac roedd yn bwysig bod materion y byrddau hynny'n cael eu hystyried. Byddai angen i dîm y Comisiynydd ystyried Byrddau a chyfarfodydd eraill a drefnwyd ac a gadeiriwyd gan yr heddlu er mwyn gweld ble y byddai presenoldeb ei aelodau fel arsylwyr a chyfranwyr barhau i fod yn fuddiol.</p> <p>O ran y rhaglen graffu bresennol, nododd HJJ fod tîm y Comisiynydd wedi cymryd pynciau eang o bob un o'r themâu allweddol yng Nghynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Byddai hyn, yn ei hanfod, yn digwydd eto ar gyfer y flwyddyn i ddod, ond roedd yn debygol y byddai ffocws ar faterion penodol ac y byddai materion eraill o ddiddordeb newydd yn cael eu cynnwys hefyd. Nododd HJJ hefyd y byddai materion mewnol yr heddlu yn parhau i fod o ddiddordeb gan fod nifer o'r ymrwymadau yng Nghynllun y Comisiynydd yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phenodi a chadw swyddogion a staff yr heddlu, e.e. yr ymrwymiad i fod yn heddlu cynrychioliadol. Felly, byddai diwylliant a llesiant mewnol yn parhau i fod yn bwysig.</p> <p>Gofynnodd JV hefyd sut y byddai argymhellion y cyfarfodydd at wraidd y mater yn cael eu goruchwyllo neu eu datblygu. Cadarnhaodd HJJ mai'r bwriad oedd i argymhellion y cyfarfodydd at wraidd y mater fod yn ffyrdd cadarnhaol ymlaen ar ôl i'r broses ddod i ben, a'u bod yn cynnig awgrymiadau a chyfleoedd ar gyfer gwella lle roedd materion wedi'u nodi. byddai tîm y Comisiynydd yn adolygu'r broses o roi'r argymhellion yr byddai'r heddlu'n cytuno i fynd ar eu trywydd, ar waith</p>		

		<p>Dyweddodd HJJ wrth y grŵp y byddai tîm y Comisiynydd yn cynnal adolygiad ar ddiwedd y flwyddyn drwy gyfarfod anffurfiol â'r adran Datblygu Corfforaethol. Diben hyn fyddai adolygu cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion presennol a thrafod unrhyw argymhellion na fyddent yn cael eu gweithredu.</p>	<p>NS i drefnu cyfarfod anffurfiol rhwng tîm y Comisiynydd a'r adran Datblygu Corfforaethol er mwyn adolygu argymhellion y cyfarfodydd bwrdd ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.</p>	
3.	<p>Casgliadau'r Cyfarfod At Wraidd y Mater ynghylch Diwylliant a Llesiant.</p>	<p>Ystyriodd y Bwrdd gasgliadau ac argymhellion y cyfarfod at wraidd y mater ynghylch diwylliant a llesiant a gyflwynwyd gan dîm Sicrwydd Busnes y Comisiynydd.</p> <p>Cydnabu JV fod nifer o'r argymhellion yn ymwneud â'r angen i dynhau mesurau perfformiad a dangosyddion ar gyfer meysydd penodol. Ymatebodd drwy ddweud mai un o raglenni newid ategol yr heddlu ar gyfer y flwyddyn oedd datblygu cerdyn sgorio cytbwys ac uchelgais yr heddlu drwy gydol y flwyddyn oedd sicrhau bod y cerdyn sgorio yn gweithio. Roedd hyn i'w groesawu.</p> <p>Cyfeiriodd JV at yr argymhelliad i gynnal arolwg blynyddol a theimlai ei bod yn debyg y byddai angen i'r arolwg gael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn, a dderbyniwyd.</p> <p>Cytunodd JV fod gan yr heddlu waith i'w wneud o ran datrys ac adolygu cwynion. Nododd fod y broses yn rhy araf a bod angen i'r heddlu fuddsoddi mewn adnoddau yn ymwneud â meddyginiaeth a datrys pethau'n gynt. Felly, deallwyd yr argymhellion yn y maes hwn.</p> <p>O ganlyniad, derbyniwyd pob un o'r argymhellion yn fras.</p>	<p>Nododd JV y bydd Heddlu De Cymru yn hapsamplu'r data ar gyfer plant dan 10 oed – tua 20 o achosion.</p>	
4.	<p>Data ar y Defnydd o Rym</p>	<p>Trafododd y Bwrdd y cwestiynau a'r safbwyntiau yn ymwneud â'r data ar y defnydd o rym a ddaeth i'r amlwg yn un o gyfarfodydd blaenorol Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PALG). Roedd aelodau PALG wedi bod yn pryderu am y defnydd anghymesur o rym ar sail ethnigrwydd, yn enwedig mewn perthynas â dynion duon. Roeddent hefyd wedi cwestiynu nifer y plant dan 10 oed y defnyddiwyd grym yn eu herbyn. Roedd aelodau PALG wedi gofyn am ragor o eglurder ynghylch y materion hyn, gan ofyn yn benodol pa fath o rym a oedd wedi'i ddefnyddio yn erbyn y plant yn y data.</p> <p>Cadarnhaodd HJJ er y byddai wedi gobeithio mai'r prif fath o rym a ddefnyddiwyd yn erbyn y plant dan 10 oed yn y data oedd 'cyfathrebu tactegol', roedd y data diweddaraf a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn dangos bod rhywfaint o rym corfforol wedi'i ddefnyddio, a fyddai'n amlwg yn oeri pryder nid yn unig i</p>		

		<p>PALG ond i'r cyhoedd yn ehangach. Felly, gofynnodd y tîm a oedd rhagor o wybodaeth ar gael am yr achlysuron a fyddai'n arwain at hyn, ac a oedd y data hyn yn arferol ar gyfer yr heddlu.</p> <p>Ymatebodd JV drwy ddweud y byddai'r heddlu'n ymgymryd â gwaith hapsamplu mewn perthynas â'r achosion yn ymwneud â phlant dan 10 oed, ac yn cyflwyno'r canfyddiadau.</p> <p>Trafododd y bwrdd y cysylltiad rhwng achosion anghymesur o stopio a chwilio a'r defnydd anghymesur o rym.</p> <p>Nododd JV y byddai'n fuddiol i eraill graffu ar y data hyn a gofynnodd a ddylai'r heddlu ddefnyddio corff allanol, er enghraifft prifysgol, i archwilio'r data hyn. Awgrymodd JV hefyd y dylai'r adroddiad ar ddata stopio a chwilio a rannwyd â CALG gael ei rannu â PALG.</p> <p>Nododd JV y byddai'n gwerthfawrogi pe bai tîm y Comisiynydd yn ymgymryd â gwaith craffu mewn perthynas â swyddogion yn gwneud penderfyniadau gwahaniaethol o bosibl ynghylch stopio a chwilio/defnyddio grym.</p> <p>Dywedodd HJJ fod tîm y Comisiynydd wedi dechrau ymchwilio i hyn drwy gynnal grwpiau ffocws yng Nghaerdydd, gan drafod profiadau pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn cymunedau gwahanol o ran stopio a chwilio. Dywedodd HJJ hefyd fod y tîm yn bwriadu cynnal grwpiau ffocws pellach yn ardal orllewinol yr heddlu gyda grwpiau gwahanol o bobl ifanc. Cadarnhaodd HJJ y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn crynhoi'r themâu a nodwyd gan y grwpiau ffocws hyn pan fyddai'r gwaith wedi'i gwblhau.</p>		
5.	Diweddariad ar dechnoleg Adnabod Wynebaw Awtomataidd	<p>Agorodd LJ yr eitem nesaf drwy ddweud bod y Comisiynydd a'i dîm wedi gofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol o ran y defnydd o dechnoleg Adnabod Wynebaw Awtomataidd ar draws yr heddlu, o ystyried y gwaith craffu allanol presennol a diddordeb y cyfryngau. Ychwanegodd fod y Comisiynydd yn parhau i gefnogi'r defnydd o'r dechnoleg hon a'i fod wedi gofyn i JV am ddiweddariadau penodol yn ystod yr wythnos.</p> <p>Nododd JV ei fod yn cynnal byrddau prosiect lleol a chenedlaethol i drafod technoleg Adnabod Wynebaw Awtomataidd, Roedd yr agendâu'n cynnwys yr angen parhaus i ddatblygu polisi ac arferion</p>		

mewn perthynas â 'nodi' a 'lleoli' drwy ddefnyddio technoleg Adnabod Wynebaw Awtomataidd. Nododd hefyd fod angen ailedrych ar y polisi lleol a chraffu arno'n gyfreithiol. Nododd hefyd fod anghysondebau yn rhai o'r dogfennau cyfreithiol a bod angen ystyried yr asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data a'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ymhellach.

Atgoffodd JV y Bwrdd fod yr heddlu wedi bod yn destun adolygiad barnwrol. Drwy'r adolygiad hwn, canfuwyd bod yr heddlu yn defnyddio'r dechnoleg yn briodol ac yn gymesur. Roedd hyn yn destun apêl, a fyddai'n cael ei chynnal ym mis Mehefin 2020.

Dywedodd HV fod y barnwr yn yr achos cychwynnol wedi rhoi caniatâd i'r heddlu ddatblygu polisi ac arferion, a oedd yn cynnwys y defnydd o dechnoleg symudol er mwyn helpu i nodi pobl.

Dywedodd JV ei fod yn falch bod y Comisiynydd yn cydnabod mai penderfyniad gweithredol oedd defnyddio technoleg Adnabod Wynebaw Awtomataidd. Dywedodd hefyd fod y Comisiynydd yn teimlo bod angen i lefel yr ymyrraeth fod yn uwch mewn perthynas â budd y cyhoedd, a dywedodd JV ei fod yn cytuno â'r datganiad.

Cyfeiriodd JV at gais y Comisiynydd i gael gwybod yn syth pan fyddai technoleg AFR yn cael ei defnyddio. Byddai'n anodd rhoi gwybodaeth amser real i'r Comisiynydd os byddai'n penderfynu defnyddio'r dechnoleg o fewn awr, er enghraifft. Fodd bynnag, byddai'r Comisiynydd yn cael ei hysbysu fel y bo'n ymarferol. Penderfynwyd y gellid ystyried y protocol y tu hwnt i'r cyfarfod.

Amlinellodd HV y ffurflen awdurdodi newydd ar gyfer defnyddio technoleg Adnabod Wynebaw Awtomataidd a chadarnhaodd y byddai'n rhaid i bob cais gael ei awdurdodi neu ei wrthod gan uwch-arolygydd. Yna, nododd y byddai'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Comisiynydd yn cael eu hysbysu cyn i'r dechnoleg gael ei defnyddio/awdurdodi.

Yn dilyn cais penodol gan y Comisiynydd, amlinellodd JV y defnydd diweddar o dechnoleg Adnabod Wynebaw Awtomataidd yn Arena Motorpoint, gan egluro'r rhesymau dros ei defnyddio a'i heffaith gadarnhaol. Roedd yr heddlu wedi cael gwybod y byddai grŵp troseddau cyfundrefnol yn bresennol. Llwyddwyd i atal unrhyw achosion disgwylidig o ddwyn yn dilyn arestiad o ganlyniad i ddefnyddio technoleg AFR.

JV i ddarparu copi o'r adroddiad ar y defnydd o dechnoleg AFR a'r canlyniadau.

		Awgrymodd JV y gallai technoleg AFR fod yn eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd yn y dyfodol. Croesawodd LJ hyn.		
6.	Diweddariadau Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi	Cadarnhaodd CW nad oedd yr Arolygiaeth wedi cadarnhau ei rhaglen PEEL o hyd ac y gallai fod ganddynt syniad gwell erbyn diwedd mis Chwefror.		
7.	Unrhyw Fater Arall	Daeth LJ â'r cyfarfod i ben drwy drafod â'r grŵp y cynlluniau a oedd ar waith ar gyfer yr etholiad a'r broses purdah.		

Camau Gweithredu Heb eu Cymryd o'r cyfarfod blaenorol

Dyddiad	Cyfarfod	Cam Gweithredu	Diweddariad	Perchennog
06/11/2019	Diwylliant a Llesiant	Emma Mills i ddarparu diffiniadau a dadansoddiadau o ystyr y categorïau "dim camau pellach" a "canlyniadau eraill" yn y data ar gwynion.	CW i rannu hyn ag NS gan ei fod wedi'i ddarparu gan EM.	Emma Mills
06/11/2019	Diwylliant a Llesiant	Debbie Williams i rannu'r gwerthusiad o'r adnodd cadw gwybodaeth.	Nododd MS nad oedd hwn wedi cael ei lansio eto 2 caiff ei rannu pan fydd ar gael.	Debbie Williams
06/11/2019	Diwylliant a Llesiant	Diweddariad ar hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.	Cadarnhaodd MS fod cyfarfod bwrdd wedi'i gynnal ym mis Ionawr a bod y mater wedi'i gyfeirio at y Cyd-Grŵp Cynghori ar gyfer Dysgu a Datblygu ar draws heddluoedd Cymru. Eir ar drywydd hyn drwy'r llwybr hwn er mwyn datblygu hyfforddiant cyffredinol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd hyn yn eitem heb ei chwblhau ar yr agenda ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.	Mark Stevenson
06/11/2019	Diwylliant a Llesiant	Emma Mills i rannu sut y gellir mesur llwyddiant Gofal yn Gyntaf a'r cynllun Cerdyn Golau Glas.	CW i rannu hyn ag NS gan ei fod wedi'i ddarparu gan EM.	Emma Mills
06/11/2019	Diwylliant a Llesiant	Rhannu cylch gwaith/cynlluniau prosiect ar gyfer diwygio'r system cwynion o safbwynt yr heddlu.	PA i'w rhannu â swyddfa'r Comisiynydd.	Phil Ashby
06/11/2019	Diwylliant a Llesiant	Cytunodd y bwrdd i gynllunio rhaglen graffu wedi'i thargedu ar gyfer y maes hwn, gyda cherrig milltir.	Parhaus.	PAWB